# Memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Ofsted ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Dyma femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted).

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2023

# Cynnwys

**Nodau, diben a chwmpas** **3**
**Egwyddorion cydweithio** **3**
Dulliau rheoleiddio ac arolygu da 4
Parch at statws annibynnol pob arolygiaeth 4
Llywio gwelliannau er mwyn darparu gofal cymdeithasol diogel 4
Pragmatiaeth a defnyddio Adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol 4
Bod mor glir â phosibl 5
**Maesydd o gydweithio** **5**
Cofrestru 6
Pryderon 6
Arolygu 7
Gorfodi 7
Protocol rhannu gwybodaeth 8
**Datrys achosion o anghytuno** **8**
**Hyd ac adolygu** **8**
**Atodlen A: Protocol rhannu gwybodaeth** **9**
Hanes diwygio a chymeradwyo 9
Cyflwyniad 9
Llywodraethu 10
Egwyddorion 10
Gwybodaeth 11
Sail gyfreithiol 12
Perchnogaeth 12
Hawliau 13
Cyfnewid gwybodaeth 13
Prosesau busnes 14
**Appendix A: Parties** **16**
**Atodiad B: Gwybodaeth y gellir ei rhannu** **18**
**Atodiad C: Sail gyfreithiol** **20**
**Atodiad D: Y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng AGC ac Ofsted am gartrefi plant heb eu cofrestru** **25**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, WG47739, ISBN digidol 978-1-83504-081-2

## Nodau, diben a chwmpas

1. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Phrif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Fawrhydi (Ofsted). Byddwn yn cyfeirio at y sefydliadau hyn gyda'i gilydd fel 'yr arolygiaethau'.

2. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut y bydd yr arolygiaethau yn cydweithio i wneud y canlynol:

   - osgoi achosion o ddyblygu neu ddryswch
   - diogelu buddiannau a hawliau plant ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig a/neu a gaiff eu harolygu gan un o'r arolygiaethau neu'r ddwy ohonynt.

   Bydd hyn yn helpu darparwyr y gwasanaethau hynny i fod yn glir o ran eu hatebolrwydd. Bydd hefyd yn helpu ein staff i wybod pryd a sut i gydlynu ein gwaith.

3. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hefyd yn nodi:

   - priod gyfrifoldebau Ofsted ac AGC ar gyfer sicrhau gwelliannau yn ogystal â defnyddio dulliau rheoleiddio a gorfodi effeithiol yn y sector gofal cymdeithasol
   - yr egwyddorion a fydd yn gymwys pan fydd gwasanaethau rheoleiddiedig yn cael eu darparu gan yr un darparwr yn y ddwy awdurdodaeth.

4. Nid yw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn:

   - yn drech na chyfrifoldebau a swyddogaethau statudol yr arolygiaethau
   - yn diwygio unrhyw bolisïau neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â'u priod weithgareddau
   - yn awgrymu y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb o un i'r llall
   - yn awgrymu y dylid rhannu cyfrifoldebau statudol.

5. Nid yw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn orfodadwy o dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae Ofsted ac AGC yn cytuno y dylid cydymffurfio â'i egwyddorion a rhoi sylw dyledus i swyddogaethau rheoleiddiol ei gilydd.

## Egwyddorion cydweithio

6. Wrth gydweithio, bwriad yr arolygiaethau yw y bydd yr egwyddorion canlynol yn nodweddu eu cydberthynas.

## Dulliau rheoleiddio ac arolygu da

7. Mae'r arolygiaethau yn ymrwymedig i egwyddorion dulliau rheoleiddio ac arolygu da. Caiff yr egwyddorion hyn eu nodi gan y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio[1] ac maent yn nodi y dylai dulliau rheoleiddio ac arolygu fod yn:

- cymesur
- atebol
- cyson
- tryloyw
- penodol.

Drwy gyfuno a chydlynu priod weithgareddau'r arolygiaethau, bydd hyn yn eu galluogi i roi'r egwyddorion hyn ar waith yn fwy llwyddiannus na phe baent yn gweithredu heb gyfeirio at y llall. Dylai hefyd helpu gyda chosteffeithlonrwydd.

## Parch at statws annibynnol pob arolygiaeth

8. Dylai cydweithio fod yng nghyd-destun cylch gwaith unigol, pwerau statudol, dyletswyddau ac atebolrwydd pob arolygiaeth. Fodd bynnag, dylai dull pob arolygiaeth o gyflawni ei swyddogaethau statudol gyd-fynd â'i gilydd er mwyn:

- osgoi achosion o ddyblygu neu ddryswch
- arwain at ymarfer priod swyddogaethau'r arolygiaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Llywio gwelliannau er mwyn darparu gofal cymdeithasol diogel

9. Y nod yw y bydd dulliau cydweithio (gan gynnwys rhannu gwybodaeth) yn gwella safonau gofal, lles a diogelwch plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig.

## Pragmatiaeth a defnyddio Adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol

10. Bydd dull ymarferol o gydweithio yn sicrhau bod prosesau ac adnoddau presennol pob arolygiaeth yn cael eu defnyddio’n effeithlon er mwyn osgoi achosion o ddyblygu lle y bo'n bosibl.

[1] Fframwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio: www.gov.uk/government/publications/better- regulation-framework.

### Bod mor glir â phosibl

11. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r hyn y mae cydweithio yn ei olygu'n ymarferol, gan gynnwys y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r protocol rhannu gwybodaeth (ISP).

## Maesydd o gydweithio

12. Mae meysydd ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth yn cynnwys:

- rheoleiddio gwasanaethau maethu a mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau cymorth mabwysiadu, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau maethu annibynnol) pan fydd y darparwr yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr,
- ymchwilio i bobl sy'n darparu gwasanaethau sydd heb eu cofrestru (pan fydd angen cofrestru'r gwasanaethau hynny gydag un o'r arolygiaethau neu'r ddwy ohonynt),
- asesu ceisiadau gan bobl sydd am gofrestru ag un o'r arolygiaethau neu'r ddwy ohonynt
- rhannu gwybodaeth berthnasol am unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â rheoleiddio a/neu arolygu:
  - gwasanaethau maethu a mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau cymorth mabwysiadu, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau maethu annibynnol) pan fydd y darparwr yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr
  - cartrefi plant (cartrefi gofal i blant) a chartrefi diogel i blant pan fydd y darparwyr yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr
  - canolfannau preswyl i deuluoedd sy'n cynnig gwasanaethau i deuluoedd sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.

13. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA), caiff gwasanaethau maethu annibynnol a gwasanaethau mabwysiadu eu nodi fel gwasanaethau rheoleiddiedig a rhaid iddynt gofrestru ag AGC. O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (CSA), rhaid i bob asiantaeth maethu ac asiantaeth mabwysiadu annibynnol sydd â'i phrif swyddfeydd yn Lloegr gofrestru ag Ofsted. Er bod angen i bob cangen o asiantaeth maethu gofrestru a chael ei harolygu ar wahân, un arolygiad a gynhelir ar gyfer asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, ni waeth sawl safle a ddefnyddir.

14. O dan RISCA, rhaid i unrhyw berson sy'n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru gofrestru yng Nghymru. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu neu faethu yng Nghymru gofrestru ag AGC, ni waeth ble mae'r gangen neu'r swyddfa wedi'i lleoli. Felly, bydd angen i rai darparwyr (y rheini sydd â'u prif swyddfeydd yn Lloegr yn bennaf ac sy'n darparu gwasanaethau mewn cangen, swyddfa neu leoliad arall yng Nghymru), gofrestru ag AGC ac

Ofsted a byddant yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio o dan CSA a RISCA.

## Cofrestru

15. Bydd AGC ac Ofsted yn rhannu gwybodaeth i ddelio â'r broses o gofrestru darparwyr pan fydd y darparwr wedi datgan, neu pan fydd yr arolygiaeth yn canfod (drwy'r broses gwneud cais neu fel arall), bod yr arolygiaeth arall wedi gwrthod ei gofrestru neu wedi gohirio ei gofrestriad.

16. Bydd y wybodaeth a rennir yn berthnasol i weithgarwch cofrestru AGC ac Ofsted. Bydd y cais am wybodaeth gofrestru yn:

- nodi'r rheswm/rhesymau dros ofyn am y wybodaeth
- nodi'r darparwr, gan gynnwys enw a rhif cwmni'r darparwr, enwau'r cyfarwyddwyr ac enw'r unigolyn cyfrifol/rheolwr lle y bo'n berthnasol
- gofyn a oes unrhyw un o'r unigolion a enwyd:
  - wedi'i wrthod rhag cofrestru
  - wedi cael cofrestriad wedi'i ganslo
  - wedi derbyn hysbysiad gorfodi statudol
  - wedi'i anghymwyso rhag gofalu am blant (i'r graddau bod y wybodaeth honno ar gael i'r arolygiaeth)
- gofyn am unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol i addasrwydd y darparwr i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

17. Diben rhannu'r wybodaeth hon fydd llywio penderfyniadau yn ymwneud ag addasrwydd yn ystod y broses gofrestru er mwyn sicrhau mai dim ond personau addas sy'n cael eu cofrestru i ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig.

18. Caiff ceisiadau am wybodaeth gofrestru eu hanfon at staff a nodwyd ym mhob arolygiaeth, fel y nodir yn Atodiad A.

19. Bydd AGC ac Ofsted yn anelu at ymateb i geisiadau am wybodaeth gofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith.

## Pryderon

20. Bydd AGC ac Ofsted yn rhannu gwybodaeth am bryderon sylweddol (e.e. pryderon ynglŷn â diogelu neu bryderon am anghysondebau ariannol) a allai fod yn berthnasol i ansawdd a diogelwch gwasanaethau o fewn y meysydd cydweithio, fel y disgrifir uchod.

21. Bydd AGC ac Ofsted yn rhannu gwybodaeth am bryderon sylweddol yn ymwneud ag ymarfer awdurdodau lleol pan fydd y wybodaeth hon yn

berthnasol i'w priod swyddogaethau rheoleiddiol. Er enghraifft, byddant yn rhannu gwybodaeth am achosion lle gallai plant sy'n derbyn gofal fod wedi'u lleoli yn amhriodol.

22. Diben rhannu gwybodaeth am bryderon sylweddol fydd codi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a/neu wirioneddol i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig. Nod hyn yw eu diogelu'n well a datrys unrhyw bryderon sylweddol yn gynt.

## Arolygu

23. Bydd AGC ac Ofsted yn rhannu adroddiadau arolygu terfynol gwasanaethau mabwysiadu a maethu sydd wedi'u cofrestru â'r ddwy arolygiaeth.

24. Pan fydd AGC neu Ofsted yn ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn darparwr sydd wedi'i gofrestru â'r ddwy arolygiaeth, bydd yr arolygiaeth berthnasol yn rhoi gwybod i'r llall am natur y camau gorfodi a'r rhesymau drostynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr arolygiaethau yn rhannu mwy o wybodaeth i gefnogi eu priod swyddogaethau rheoleiddiol, er enghraifft, gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i addasrwydd darparwr.

25. Diben rhannu'r wybodaeth hon am arolygu a gorfodi fydd:

- codi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a/neu wirioneddol i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig
- galluogi'r ddwy arolygiaeth i gymryd camau rheoleiddio priodol.

## Gorfodi

26. Bydd yr arolygiaethau yn rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth statudol a chamau gorfodi, gan gynnwys gorfodaeth droseddol, mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu neu faethu pan fydd y darparwr yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr.

27. Bydd AGC ac Ofsted yn rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth statudol a chamau gorfodi mewn perthynas â chartrefi plant pan fydd y wybodaeth honno yn berthnasol i swyddogaethau a pherfformiad y rheoleiddiwr arall.

28. Diben rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth statudol a chamau gorfodi yw:

- codi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a/neu wirioneddol i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau y mae'r camau gorfodi wedi effeithio arnynt
- sicrhau bod camau rheoleiddio priodol yn cael eu cymryd.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y naill arolygiaeth yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad y llall mewn perthynas â chamau gorfodi neu reoleiddio.

29. Lle y bo angen, bydd yr arolygiaethau yn darparu tystiolaeth i lywio a chefnogi camau gorfodi rheoleiddiol neu erlyniad troseddol y llall. Gall y dystiolaeth a ddarperir gynnwys y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau yn ogystal â datganiadau tystion.

### Protocol rhannu gwybodaeth

30. Mewn rhai amgylchiadau, gall dulliau cydweithio effeithiol ei gwneud yn ofynnol i'r arolygiaethau gyfnewid gwybodaeth gan gynnwys yr hyn a nodir yn yr adran hon o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae'r arolygiaethau yn cydnabod y bydd penderfyniad i rannu gwybodaeth:

   - yn cael ei benderfynu fesul achos
   - bob amser yn gorfod cydymffurfio ag unrhyw gyfraith gymwys, egwyddor diogelu data, cod ymarfer, canllawiau a'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno yn Atodlen A.

31. Mae'r protocol rhannu gwybodaeth yn Atodlen A yn nodi'r sail a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau.

## Datrys achosion o anghytuno

32. Bydd y ddwy arolygiaeth yn enwebu swyddogion ar gyfer rheoli'r dulliau o gydweithio a rhannu gwybodaeth o ddydd i ddydd fel y nodir yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn. Fel arfer, caiff unrhyw achos o anghytuno ei ddatrys yn gyflym ar lefel weithredol neu drwy'r swyddogion enwebedig hyn. Os na fydd hyn yn bosibl, gall y mater gael ei atgyfeirio i Gyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Ofsted a Dirprwy Brif Arolygydd AGC, a fydd yn gyfrifol am lunio datrysiad boddhaol ar y cyd.

## Hyd ac adolygu

33. Daw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn i rym ar 1 Ebrill 2020. Bydd yn parhau i fod mewn grym nes bydd un parti neu'r ddau ohonynt yn ei ddirymu.

34. Caiff y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ei adolygu o leiaf bob tair blynedd neu pa bryd bynnag y caiff newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol eu cynnig neu eu cyflwyno.

| | |
|---|---|
| ...................................... | ...................................... |
| Dirprwy Brif Arolygydd<br>Arolygiaeth Gofal Cymru | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol<br>Cenedlaethol Ofsted |

# Atodlen A: Protocol rhannu gwybodaeth

## Hanes diwygio a chymeradwyo

| Fersiwn | Disgrifiad o’r diwygiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1.0 | Fersiwn gyntaf a gyhoeddwyd | 3 Mawrth 2020 |
| 2.0 | Ail fersiwn a gyhoeddwyd | 10 Rhagfyr 2021 |
| 3.0 | Trydedd fersiwn a gyhoeddwyd | 23 Mai 2023 |

## Cyflwyniad

Mae'r protocol rhannu gwybodaeth hwn yn nodi'r sail a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau, AGC ac Ofsted.

Noder nad yw'r protocol rhannu gwybodaeth hwn yn drefniant amgen yn lle defnyddio ceisiadau rhyddid gwybodaeth neu geisiadau am fynediad at ddata gan y testun y mae ganddynt eu prosesau gwahanol eu hunain.

Nodau'r protocol rhannu gwybodaeth hwn yw:

- amlinellu'r egwyddorion y bydd yr arolygiaethau yn eu defnyddio ar gyfer rhannu gwybodaeth
- creu templed cyffredin ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau ynglŷn â chofnodion cyhoeddus a diogelu data.

Mae prif gorff y protocol rhannu gwybodaeth yn nodi'r egwyddorion cyffredinol o ran y ffordd y bydd y partïon yn gweithio gyda'i gilydd. Ceir nifer o atodiadau sy'n rhoi rhagor o fanylion, sef:

- Atodiad A: Partneriaid – Mae hwn yn rhoi manylion am yr arolygiaethau, y prif enwau cyswllt ar gyfer y protocol rhannu gwybodaeth hwn ac unrhyw ganllawiau ychwanegol o ran y ffordd y mae'r arolygiaethau yn cytuno i gydweithio.
- Atodiad B: Gwybodaeth – Mae hwn yn dangos y prif gategorïau o wybodaeth reoleiddiol a gwybodaeth fusnes y bydd yr arolygiaethau yn ei rhannu ac yn rhoi crynodeb o'r rhesymeg dros rannu'r wybodaeth hon.
- Atodiad C: Sail gyfreithiol – Mae hwn yn crynhoi'r sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth.

- Atodiad D: Y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng AGC ac Ofsted am gartrefi plant heb eu cofrestru.

Er nad yw'n ddogfen gyfreithiol gyfrwymol, mae'r protocol rhannu gwybodaeth hwn yn dangos bwriad yr arolygiaethau i gyflawni eu dyletswyddau rheoleiddiol drwy rannu gwybodaeth yn gyfreithlon er mwyn diogelu llesiant defnyddwyr gwasanaethau.

## Llywodraethu

Bydd AGC yn cadw meistrbrotocol rhannu gwybodaeth yn seiliedig ar y templed hwn ar gyfer Protocol Rhannu Gwybodaeth. Bydd y meistrbrotocol rhannu gwybodaeth yn coladu'r manylion o'r holl brotocolau rhannu gwybodaeth rhwng AGC a sefydliadau eraill. Caiff y meistrbrotocol rhannu gwybodaeth ei adolygu o leiaf bob tair blynedd a'i ddosbarthu i bob sefydliad y mae ganddo brotocol rhannu gwybodaeth ag AGC.

Pan fydd newidiadau a fydd yn effeithio ar y trefniadau o dan y protocol rhannu gwybodaeth hwn, mae'n rhaid i'r partïon hysbysu ei gilydd yn ddi-oed. Os bydd anghytuno, dylid defnyddio'r enwau cyswllt a restrir yn Atodiad A yn y lle cyntaf i gydgysylltu er mwyn cael datrysiad priodol. Os oes angen terfynu'r protocol rhannu gwybodaeth, dylai'r partïon wneud pob ymdrech i roi o leiaf fis calendr o rybudd am y dyddiad terfynu arfaethedig.

## Egwyddorion

Bydd yr arolygiaethau yn rhannu gwybodaeth gan ddilyn yr egwyddorion hyn.

- Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rhagweithiol er mwyn cefnogi swyddogaethau perthnasol pob arolygiaeth.

- Pan fydd budd cyffredin rhwng yr arolygiaethau (megis adroddiadau cyhoeddus neu gyhoeddiadau yn y cyfryngau), bydd yr arolygiaethau yn cydweithio i rannu gwybodaeth. Nod hyn yw lleihau'r baich ar yr arolygiaethau ac osgoi achosion o ddryswch neu ddyblygu.

- Rhaid i ddulliau rhannu gwybodaeth fod:
  - yn berthnasol i swyddogaethau'r arolygiaeth
  - yn gymesur i'r tasgau gofynnol
  - yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion gofynnol
  - wedi'u cyfiawnhau'n gyfreithiol.

- Bydd rhannu gwybodaeth wedi'i gyfyngu i'r aelodau hynny o'r staff yn y ddwy arolygiaeth y mae eu rolau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt brosesu'r wybodaeth honno.

Disgrifir meysydd eraill o reoli gwybodaeth (megis diogelwch, trosglwyddo, sail gyfreithiol a hawliau) isod.

## Gwybodaeth

Mae'r arolygiaethau yn dal amrywiaeth o wybodaeth ar ffurf copi caled ac yn ddigidol er mwyn cefnogi eu swyddogaethau. Categorïau cyffredinol y swyddogaethau hyn yw:

- cofrestru a rheoleiddio gwasanaethau a darparwyr gofal
- arolygu gwasanaethau a darparwyr gofal
- gorfodi safonau ar draws gwasanaethau a darparwyr gofal
- ymchwilio i bersonau sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig heb gofrestru
- arolygu a gwerthuso perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, gall gwybodaeth symud yn hawdd rhwng y meysydd swyddogaethol hyn. Er enghraifft, gall arolygiad ddatgelu pryder sylweddol ynglŷn â statws cofrestru gwasanaeth gofal. Efallai bod y gwasanaeth gofal yn dod o dan ddarparwr gofal awdurdod lleol ac y bydd ymchwiliad pellach i'r pryder sylweddol yn arwain at gamau gorfodi. Mae angen deall y rhyngberthynas gymhleth hon o ran anghenion gwybodaeth gan ei bod yn adlewyrchu'r ffordd y gellir rhannu gwybodaeth. Nid oes modd categoreiddio gwybodaeth o dan un swyddogaeth benodol bob amser, felly, wrth rannu, mae'r pwyslais ar sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol, yn angenrheidiol ac yn gymesur â nod bwriadedig rhannu o'r fath.

Mae rhesymau pwysig pam y caiff gwybodaeth ei rhannu. Mae'r rhain wedi'u crynhoi, yn erbyn amrywiol gategorïau o wybodaeth yn y tabl yn Atodiad B y protocol rhannu gwybodaeth hwn.

Mae'r ffordd y mae'r arolygiaethau yn ymdrin â'r wybodaeth bersonol a dderbynnir gennym wedi'i nodi yn ein hysbysiadau preifatrwydd cyhoeddedig[2]. Er enghraifft, os derbynnir pryder sylweddol oddi wrth sefydliad arall, ymdrinnir ag ef fel petai'n un o bryderon sylweddol yr arolygiaeth ei hun o adeg ei dderbyn. Mae'r hysbysiadau preifatrwydd hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at amserlenni cadw. Mae'r rhain yn bwysig gan eu bod yn effeithio ar argaeledd gwybodaeth dros amser, a all fod yn ffactor hollbwysig mewn prosesau busnes megis gweithgareddau gorfodi. Mae'r hysbysiadau preifatrwydd hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at y sefydliadau hynny y mae'r arolygiaethau yn rhannu gwybodaeth â nhw.

[2] Hysbysiad Preifatrwydd AGC: www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol. Hysbysiad Preifatrwydd Ofsted:www.gov.uk/government/publications/ofsted-privacy-notices/social-care-ofsted- privacy-notice#local-authority-childrens-services.

## Sail gyfreithiol

Mae'n rhaid bod sail gyfreithiol ddigonol dros rannu gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau. Ceir crynodeb o'r seiliau cyfreithiol hyn yn Atodiad C. Gall y sail gyfreithiol fod yn berthnasol i fath penodol o wybodaeth y mae angen ei rhannu (megis pryderon ynglŷn â diogelwch defnyddwyr gwasanaethau) neu i swyddogaethau penodol sefydliad (megis gwiriadau cofrestru rhwng sefydliadau sydd â swyddogaethau rheoleiddio cysylltiedig).

Yn ogystal, mae angen i'r sail gyfreithiol fod yn gydnaws â sensitifrwydd y wybodaeth. Gellir rhannu'r sensitifrwydd yn dri chategori eang:

- amhersonol: gwybodaeth ddi-enw fel arfer a ddefnyddir mewn dadansoddiadau ystadegol
- personol: gwybodaeth lle gellir adnabod unigolyn, naill ai'n uniongyrchol (drwy enw) neu'n anuniongyrchol (drwy ddefnyddio gwybodaeth gyd-destunol a ddarperir)
- categori arbennig: gwybodaeth sensitif am unigolion sy'n ymwneud â meysydd megis iechyd, rhywioldeb, crefydd ac ati.

Fodd bynnag, bydd amgylchiadau eithriadol bob amser yn codi pan fydd yn rhaid i wybodaeth gael ei rhannu er mwyn diogelu llesiant defnyddwyr gwasanaethau ond nad ydynt wedi'u cwmpasu'n benodol o dan y protocol rhannu gwybodaeth hwn o dan yr amgylchiadau hynny, mae llesiant defnyddwyr gwasanaethau o'r pwys mwyaf ac mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhannu. Dylid pennu'r sail gyfreithiol ar gyfer hyn fel blaenoriaeth. Dylai'r arolygiaethau roi gwybod i'w gilydd am yr amgylchiadau eithriadol cyn gynted â phosibl ar ôl y math hwn o ddigwyddiad, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir yn Atodiad A y protocol rhannu gwybodaeth hwn. Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddaru'r protocol rhannu gwybodaeth hwn er mwyn sicrhau bod sefyllfaoedd tebyg yn gliriach yn y dyfodol.

## Perchnogaeth

Y rheolydd data sy'n penderfynu ar y rheswm dros brosesu data personol yn ogystal â'r dull a ddefnyddir. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldebau penodol ar sefydliad o dan ddeddfwriaeth diogelu data'r DU:

- Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
- Deddf Diogelu Data'r DU 2018.

Pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â sefydliadau eraill, bydd y sefydliadau sy'n ei hanfon ac sy'n ei derbyn yn rheolyddion data annibynnol. Mae hyn yn dangos bod y wybodaeth yn trosglwyddo'n llwyr o reolaeth y sefydliad sy'n anfon i reolaeth y sefydliad sy'n derbyn. Wedyn, gall y sefydliad sy'n derbyn ddefnyddio'r wybodaeth honno yn unol â'i swyddogaethau ei hun.

## Hawliau

Mae'r arolygiaethau yn cytuno i barchu hawliau testun y data mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth bersonol a rennir. Noder mai ystyr 'testun data' yw'r unigolyn byw adnabyddedig neu adnabyddadwy y mae'r data personol yn ymwneud ag ef. Er enghraifft, gallai hyn gyfeirio at ddiweddaru gwybodaeth a rennir y canfuwyd ei bod yn anghywir.

Mae'n rhaid i'r arolygiaethau fod yn ymwybodol bob amser o hawliau statudol testun y data a chynorthwyo ei gilydd er mwyn parchu'r hawliau hynny fel y bo angen.

Os bydd tor-diogelwch data mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â rhannu'r wybodaeth honno gael eu hysbysu cyn gynted â phosibl. Pan roddir gwybod am achos o dor-diogelwch data, rhaid cynnal adolygiad i ddeall amgylchiadau'r tor-diogelwch, llunio cynllun gweithredu adferol ac asesu hyfywedd y protocol rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

Lle y bwriedir datgelu gwybodaeth a rennir i drydydd partïon, dylid bob amser ystyried hawliau'r parti gwreiddiol a'r effaith arni. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y gallai'r wybodaeth a rennir effeithio'n andwyol ar y parti gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac achosion tebyg o ryngweithio â thrydydd partïon.

Dylai arolygiaethau ystyried rhoi gwybod i destun y data neu ei gynrychiolwyr cyfreithlon bod angen iddynt rannu ei wybodaeth (ac ystyried unrhyw ofyniad i gael ei ganiatâd) cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ystyried ymarferoldeb cysylltu â thestun y data, y risg o niwed i eraill a'r risg o lesteirio unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfreithiol cysylltiedig. Os cysylltir â thestun y data, byddai hynny'n cael ei wneud i'w hysbysu am ba wybodaeth bersonol a gaiff ei rhannu, gyda phwy ac at ba ddibenion.

## Cyfnewid gwybodaeth

Anfonwr gwreiddiol y wybodaeth sy'n gyfrifol am ansawdd y wybodaeth a gaiff ei rhannu. Mae'n bwysig bod yr ansawdd hwn wedi'i ddiffinio wrth rannu gwybodaeth fel na fydd unrhyw gamdybiaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, yr amser/amserlen a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth wreiddiol neu ddatganiad yn nodi bod y wybodaeth, yn ôl dealltwriaeth yr anfonwr, yn gywir ar adeg ei hanfon.

Caiff ceisiadau ad hoc am wybodaeth eu prosesu cyn gynted â phosibl. Oherwydd natur gymhleth ac amrywiol iawn ceisiadau nid oes modd rhoi cytundeb lefel gwasanaeth diffiniol ar gyfer amseroedd ymateb. Er mwyn lliniaru hyn, dylai'r ymateb cychwynnol a roddir o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cais ddarparu amcangyfrif o'r amser sydd ei angen i ymateb yn llawn i'r cais.

Pryd bynnag y caiff gwybodaeth ei rhannu, rhaid ei rhannu'n ddiogel. Dangosir amlinelliad cyffredinol o'r ffyrdd y gellir gwneud hyn isod. Gan fod y dulliau yn gallu newid yn rheolaidd, dylai pob parti ymgynghori â'i swyddogion arweiniol ym maes diogelwch gwybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac yn gyfredol.

- Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd: Nid oes angen unrhyw fesurau diogelu arbennig ar gyfer gwybodaeth o'r fath.
- Gwybodaeth sensitif (copi caled): Fel arfer, mae hyn yn cynnwys pecynnu gwybodaeth yn ddiogel (e.e. lapio dwbl) a ffordd o fonitro'r broses gludo (e.e. olrhain pecynnau neu ddefnyddio gwasanaeth cludo).
- Gwybodaeth sensitif (digidol):
  - Rhwydweithiau dibynadwy: Mae rhwydweithiau diogel y gellir eu defnyddio heb fesurau diogelu pellach ychwanegol. Mae'r arolygiaethau yn cadw rhestrau ohonynt ar dudalennau eu mewnrwyd.
  - Gwasanaeth diogel (ar-lein): Fel arfer, mae'r rhain yn wasanaethau wedi'u caffael sy'n cynnig dull diogel o anfon cynnwys digidol rhwng gwahanol sefydliadau (e.e. amgryptio e-byst).
  - Gwasanaeth diogel (all-lein): Fel arfer, mae'r rhain yn ddyfeisiau storio digidol wedi'u hamgryptio ac wedi'u diogelu â chyfrinair, fel disgiau neu gof bach. Yn aml iawn, maent yn fwy addas ar gyfer trosglwyddo symiau mwy o wybodaeth ddigidol. Mae'r arolygiaethau yn darparu rhestrau o ddyfeisiau a gymeradwywyd ar dudalennau eu mewnrwyd.

Mae'n rhaid i'r arolygiaethau sicrhau bod prosesau busnes a'r seilwaith digidol a ffisegol yn diogelu pob darn o wybodaeth a rennir, boed hynny ar ffurf copi caled neu'n ddigidol. Dylai hyn fod yn unol ag arfer gorau'r diwydiant megis ISO27001 neu Cyber Essentials, a'r safonau a bennwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus megis fframwaith polisi diogelwch y llywodraeth. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- gorfodi'r lefelau cywir o fynediad at wybodaeth (e.e. defnyddio gwe-letya diogel, mewngofrestru diogel)
- sicrhau parhad gwybodaeth (e.e. creu copïau wrth gefn yn rheolaidd oddi ar y safle)
- diogelu gwybodaeth rhag ymosodiad maleisus (e.e. defnyddio mesurau diogelwch rhag feirysau a waliau tân)
- sicrhau bod unrhyw drydydd parti sy'n prosesu gwybodaeth yn cadw at y rheoliadau sy'n llywodraethu'r broses o ymdrin â gwybodaeth bersonol (e.e. drwy drefniadau cytundebol).

## Prosesau busnes

Mae'r protocol rhannu gwybodaeth hwn wedi'i deilwra ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau i gefnogi eu swyddogaethau statudol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cydlynu ein priod brosesau busnes, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth.

Er mwyn cydlynu prosesau busnes mae'n rhaid i gyfranogi gweithredol fod yn llwyddiannus. Er y gall y protocol rhannu gwybodaeth hwn helpu i bennu egwyddorion cydweithio, ni all fod yn gyfredol bob amser yn sgil y newidiadau rheolaidd a chyflym mynych i amgylcheddau gweithredol. Y ffordd orau o hwyluso'r cydweithrediad hwn yw bod yr arolygiaethau yn cyfarfod er mwyn rheoli'r prosesau cymorth ac atgyfnerthu cydberthnasau gwaith.

Er bod y protocol rhannu gwybodaeth hwn yn diffinio'r rheolaethau ynglŷn â rhannu gwybodaeth, dylai'r prosesau busnes ganolbwyntio ar y gwaith ategol y mae angen ei wneud o ddydd i ddydd mewn amgylcheddau gweithredol. Gallai hyn gynnwys:

- nodi newidiadau y mae angen eu gwneud i'r protocol rhannu gwybodaeth hwn
- cadarnhau manylion cyswllt, gan gynnwys y rhai sy'n anfon ac yn derbyn gwybodaeth
- darparu ffurflenni er mwyn cyflymu'r broses o rannu gwybodaeth
- sicrhau y caiff gwybodaeth ei phrosesu'n unol â'r protocol rhannu gwybodaeth hwn
- cytuno ar y system briodol o drosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel
- cytuno ar amserlenni ar gyfer rhannu gwybodaeth
- trefnu sesiynau hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a sesiynau tebyg mewn cysylltiad â rhannu gwybodaeth a phrosesau busnes cysylltiedig
- ymdrin â materion a risgiau sy'n deillio o'r broses o rannu gwybodaeth
- cynllunio ar gyfer gweithrediadau ar y cyd sy'n gofyn am rannu gwybodaeth.

## Appendix A: Parties

This appendix lists the parties that will be sharing information with each other. The 'ISP contacts' entries provide the main conduit for any communications in relation to this ISP. The 'Business processes' entries reference any annexes that describe ways in which CIW and Ofsted have agreed to collaborate.

| Partner | Prif nodau | Enw cyswllt ar gyfer y protocol rhannu gwybodaeth | Prosesau busnes |
|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Cymru | AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. | Kirsty Manton<br>Rheolwr Ansawdd a Gwybodaeth e: AGCGwybodaeth@llyw.cymru | AGC@llyw.cymru |
| Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Fawrhydi (Ofsted) | Caiff Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Fawrhydi ei gefnogi gan Ofsted, y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted). Mae Ofsted yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc, a'r gwasanaethau addysg gynnar a blynyddoedd diweddarach a ddarperir i blant.<br>Mae Ofsted yn arolygu gwasanaethau sy'n darparu addysg a sgiliau i ddysgwyr o oedrannau eraill. | Matthew Reed<br>Uwch-reolwr Busnes e: EYRegulatoryandSocialCare@Ofsted.gov.uk | scadmin@ofsted.gov.uk |

## Llofnodwyr

Gellir defnyddio'r Llofnodwyr i gael awdurdod os bydd yn well gwneud hynny yn hytrach na chael cadarnhad e-bost.

| **Partner** | **Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Fawrhydi (Ofsted)** |
|---|---|---|
| **Enw** | Margaret Rooney | Yvette Stanley |
| **Rôl** | Dirprwy Brif Arolygydd | Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Gofal Cymdeithasol |
| **Llofnod** | Margaret Rooney | Yvette Stanley |
| **Dyddiad** | 23-05-2023 | 23-05-2023 |

# Atodiad B: Gwybodaeth y gellir ei rhannu

| Categori | Disgrifiad | Rheswm dros rannu |
|---|---|---|
| Gorfodi | **Ceisiadau am wybodaeth** Gwybodaeth a roddwyd i ategu cam gorfodi a gymerwyd gan un o'r arolygiaethau. Bydd natur y wybodaeth yn dibynnu ar y cais a geir ym mhob achos. Fel arfer, gallai hyn gynnwys adroddiadau arolygu a/neu ddatganiadau tystion arolygwyr. | I sicrhau na chaiff camau gorfodi sy'n dibynnu ar rannu gwybodaeth eu llesteirio ac y caiff cymorth ei roi mewn perthynas â'r broses reoliadol a barnwrol. |
| | **Camau gorfodi** Camau gorfodi arfaethedig a gwirioneddol a'u canlyniadau. Gall hyn gynnwys Gwasanaethau sy'n Peri Pryder ac achosion mewn llysoedd Sifil a Throseddol. | I godi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau o dan amgylchiadau sy'n ymwneud â'r camau gorfodi a'i gwneud yn bosibl i fesurau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith. |
| Pryderon | Mae pryderon sylweddol yn cynnwys unrhyw risg bosibl sylweddol i ddiogelwch, llesiant a hawliau darparwyr gofal, defnyddwyr ac unrhyw drydydd partïon cysylltiedig. | I godi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a gwirioneddol i lesiant defnyddwyr gwasanaethau, gan ei gwneud yn bosibl i fesurau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith a datrys y pryderon ar gam cynharach. |
| Arolygiadau | Adroddiadau arolygu a dogfennaeth ategol. | I godi ymwybyddiaeth o risgiau posibl a gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau a sicrhau uniondeb y wybodaeth sydd ar gael i'r arolygiaethau. |
| Cofrestriadau | Ceisiadau, cofrestriadau, datgofrestriadau arfaethedig a datgofrestriadau. | Er mwyn gallu croeswirio o ran cofrestriadau a all wneud y canlynol:<br>▪ diogelu defnyddwyr gwasanaethau rhag camarfer<br>▪ atal cofrestryddion rhag osgoi camau gorfodi neu ddyletswyddau rheoleiddio<br>▪ caniatáu i fuddiannau sy'n dibynnu ar gofrestru gael eu darparu<br>▪ hwyluso'r broses o brosesu cofrestriadau dibynnol. |
| Strategaeth | Prosesau busnes, gwybodaeth ddienw ddadansoddol a chynllunio strategol a gweithredol. | I rannu arferion gorau, cysoni datblygiad strategol, llywio gwaith datblygu polisi a chefnogi trefniadau gweithio gweithredol cydweithredol. |
| Ymchwiliol | Gwybodaeth a gafwyd fel rhan o ymchwiliadau i wasanaethau rheoleiddiedig a ddarperir gan bersonau sydd heb gofrestru. | I sicrhau bod yr arolygiaethau yn ymwybodol o waith ymchwilio troseddol a diogelu defnyddwyr gwasanaethau rhag cael gwasanaethau annigonol. Hefyd, er mwyn helpu i gyflwyno tystiolaeth gynhwysfawr |

| | | |
|---|---|---|
| | | mewn unrhyw achosion. |
| | **Y cyfryngau**<br>Gwybodaeth a gasglwyd a gaiff ei pharatoi i'w chyflwyno i'r cyfryngau. | I ddarparu naratif cydgysylltiedig wrth ymdrin â'r cyfryngau allanol. |

# Atodiad C: Sail gyfreithiol

Mae'n rhaid bod sail gyfreithiol dros rannu unrhyw ddarn o wybodaeth rhwng yr arolygiaethau.

Mae angen bodloni o leiaf un o'r seiliau cyfreithiol o dan Erthygl 6 o Reoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data wrth rannu unrhyw ddata personol. Fodd bynnag, os caiff unrhyw ddata categori arbennig eu rhannu rhwng yr arolygiaethau, bydd angen nodi sail gyfreithiol o dan Erthygl 6 o Reoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data ac amod ar wahân i'w prosesu o dan Erthygl 9. Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi'r amodau y gellir dibynnu arnynt.

Dylid cofnodi'r sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth at ddibenion archwilio bob amser.

Mae Rhan A o'r atodiad hwn yn cwmpasu'r sail gyfreithiol gyffredinol dros rannu gwybodaeth rhwng yr arolygiaethau. Mae Rhan B yn cwmpasu unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sy'n benodol i Ofsted y bydd yn dibynnu arnynt os bydd o'r farn bod angen rhannu gwybodaeth naill ai er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu wrth arfer swyddogaethau. Lle mae cofnodion yn erbyn partïon yn wag, mae hyn yn nodi y dibynnir ar y sail gyfreithiol yn Rhan A ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Mae'r tablau a ddefnyddir yn Rhannau A a B yn nodi'n fras y mathau o wybodaeth i'w rhannu (Allwedd: C: Cofrestriadau; A: Arolygiadau; P: Pryderon; G: Camau gorfodi; S: Strategaeth), cwmpas y wybodaeth honno a'r sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth. Mae rhannu gwybodaeth yn aml wedi'i anelu at ddiogelu llesiant defnyddwyr gwasanaethau a sicrhau gweithio mwy cydgysylltiedig rhwng cyrff cyhoeddus. Ceir amlinelliad o'r ffordd y caiff gwybodaeth a rennir ei defnyddio yn Atodiad B.

## Rhan A: Y sail gyfreithiol i AGC rannu gwybodaeth ag Ofsted

| Partneriaid | C | A | P | G | S | Cwmpas | Sail gyfreithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AGC | x | x | x | x | | Gwybodaeth sy'n berthnasol i reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol a gofal plant i ddinasyddion Cymru. | **Rhannu data personol**<br><br>Erthygl 6(1)(c) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU): Caniatâd i rannu gwybodaeth lle bo angen gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU: Caniatâd i rannu gwybodaeth er mwyn ymgymryd â thasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.<br><br>Atodlen 2/3: Deddf Diogelu Data 2018: Caniateir datgelu gwybodaeth heb gydsyniad lle bo angen. Gall hyn gynnwys cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (fel y nodir isod), diogelu buddiannau hanfodol testun y data, gweinyddu cyfiawnder, ac arfer unrhyw swyddogaethau eraill o natur gyhoeddus a gaiff eu harfer er budd y cyhoedd gan unrhyw berson; Atodlen 8 i'r Ddeddf Diogelu Data: Caniateir prosesu data er mwyn atal troseddau, ymchwilio iddynt, eu canfod neu erlyn unigolion mewn perthynas â'r troseddau hynny neu er mwyn gweithredu cosbau troseddol.<br><br>**Rhannu data categori arbennig**<br><br>Erthygl 9(2)(b) o GDPR y DU: Rhoddir caniatâd i rannu'r wybodaeth lle bo angen gwneud hynny er mwyn cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau'r rheolydd neu destun y data ym maes cyfraith diogelu cymdeithasol; neu Erthygl 9(2)(c) o GDPR y DU: Rhoddir caniatâd i rannu'r wybodaeth lle bo angen gwneud hynny er mwyn diogelu buddiannau hanfodol testun y data.<br><br>Atodlen 1, Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data: Caniateir prosesu at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol: Paragraff 6 pan fydd angen gwneud hynny er mwyn arfer swyddogaeth a roddwyd drwy ddeddfu rheol gyfreithiol; Paragraff 10 pan fydd angen gwneud hynny er mwyn cyflawni rhai swyddogaethau diogelu penodol sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu aelodau o'r cyhoedd rhag mathau penodol o ymddygiad nad yw'n gyfystyr â gweithred anghyfreithlon, fel<br>anonestrwydd, anghymwysedd neu gamreolaeth. Mae hefyd yn ofynnol sicrhau y byddai cael cydsyniad testun y data yn rhagfarnu'r dibenion hynny a bod angen |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | prosesu'r wybodaeth am resymau sy'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol; Paragraff 18 pan fydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg.<br><br>**Rhannu data personol a data categori arbennig**<br><br>Rhwymedigaethau cyfreithiol y gellir dibynnu arnynt ar gyfer data personol a data categori arbennig:<br><br>Mae Adran 182: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) yn gosod dyletswydd ar gorff rheoleiddio i ddatgelu gwybodaeth a gafodd wrth arfer ei swyddogaethau perthnasol i unrhyw berson arall os bydd o'r farn bod angen datgelu'r wybodaeth honno neu y byddai'n ddoeth datgelu'r wybodaeth honno er mwyn sicrhau llesiant unigolyn yng Nghymru.<br><br>Mae Rhan 9: Deddf RISCA (Cymru) 2016 yn nodi y gall cyrff rheoleiddio gydweithredu a chydweithio wrth gofrestru a rheoleiddio pobl sy'n darparu gwasanaethau cartref gofal.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn nodi y dylai pobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau i annog asiantaethau partner i gydweithio er mwyn gwella llesiant plant. |
| | | | | x | | Ceisiadau am wybodaeth a ddaw i law | Oherwydd yr amrywiadau o ran y wybodaeth y gofynnir amdani, caiff y seiliau cyfreithiol ar gyfer ceisiadau o'r fath eu hadolygu fesul achos a chaiff y canlyniadau eu cofnodi gan AGC. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | x | Gwybodaeth ddienw a gwybodaeth gyhoeddus | Adran 87, paragraffau (9A), (9B), a (9C): Deddf Plant 1989; Adran 32, (5), (6) a (7): Deddf Safonau Gofal 2000;<br>Adran 40: Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;<br>Rheoliad 2, paragraffau (2), (3) a (4): Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010;<br>Adran 36 (3) RISCA<br>Mae'r uchod yn nodi y gall gwybodaeth gael ei rhyddhau i'r cyhoedd.<br><br>Nid yw gwybodaeth strategol sydd wedi'i hanonymeiddio (er enghraifft, prosesau busnes neu ddadansoddeg) yn dod o dan y rheoliadau diogelu data a dim ond cytundeb busnes sydd ei angen, nid sail gyfreithiol. |

## Part B: Legal basis specific to Ofsted for its sharing of information with CIW

| Partneriaid | C | A | P | G | S | Cwmpas | Sail gyfreithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Fawrhydi (Ofsted) | x | x | x | x | x | Gwybodaeth sy'n berthnasol i wasanaethau plant, gwasanaethau mabwysiadu a maethu, ac arolygiadau ac adolygiadau Awdurdodau Lleol yn Lloegr. | **Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006**<br>Mae Adran 117(2) yn nodi y bydd Ofsted yn cydnabod yr angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant wrth gyflawni ei swyddogaethau; yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau; ac yn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu yn gymesur â risgiau.<br><br>Mae Paragraff 13 o Atodlen 11 yn nodi y gall Ofsted wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n ofynnol neu'n ddisgwyliedig at ddibenion ei swyddogaethau neu mewn perthynas â nhw.<br><br>Mae Adran 119(1) yn nodi y bydd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi yn cyflawni ei swyddogaethau er mwyn annog gwelliannau i weithgareddau sy'n rhan o'i gylch gwaith a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol wrth gyflawni dyletswyddau o'r fath. Mae Adran 119(2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Brif Arolygydd Ei Fawrhydi sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae Adran 119(3) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Brif Arolygydd Ei Fawrhydi gydnabod yr angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Mae Paragraff 6 o Atodlen 12 yn nodi y gall Prif Arolygydd Ei Fawrhydi wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n ofynnol neu'n ddisgwyliedig at ddibenion ei swyddogaethau neu mewn perthynas â nhw.<br><br>Mae Paragraff 8 o Atodlen 13 yn nodi y gall Prif Arolygydd Ei Fawrhydi roi cyngor neu gymorth i awdurdod cyhoeddus arall at ddiben sicrhau bod yr awdurdod hwnnw yn cyflawni ei swyddogaethau.<br><br>Mae Adran 153 hefyd yn nodi y gall y wybodaeth a geisir gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw un o'i swyddogaethau eraill.<br><br>**Deddf Safonau Gofal 2000**<br>Ofsted yw'r awdurdod cofrestru ar gyfer cartrefi plant, canolfannau preswyl i deuluoedd, cynlluniau gwyliau preswyl i blant anabl, asiantaethau maethu, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu yn Lloegr ac mae ganddo'r pŵer i'w harolygu.<br><br>Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Safonau Gofal, mae Ofsted yn ceisio data personol am berchnogion, rheolwyr a chyflogeion darparwyr gofal yn ogystal â data personol am blant, eu rhieni neu unigolion cysylltiedig eraill. Rydym yn prosesu ac yn rhannu'r wybodaeth honno gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006. |

# Atodiad D: Y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng AGC ac Ofsted am gartrefi plant heb eu cofrestru

## Cyd-destun

Yn Lloegr, mae'n drosedd o dan adran 11 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i weithredu neu reoli cartref plant heb gofrestriad.

Yng Nghymru, mae'n drosedd o dan adran 5 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ddarparu cartref gofal i blant heb gofrestriad.

Weithiau, bydd awdurdodau lleol yn lleoli plant dros y ffin yng Nghymru neu Loegr gyda darparwyr sy'n gweithredu cartrefi plant heb eu cofrestru. Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru roi gwybod i AGC pan fyddant yn trefnu lleoliadau o'r fath. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr roi gwybod i Ofsted.

Mae gan Ofsted ac AGC bwerau i ddechrau ymchwiliadau troseddol i ddarparwyr sy'n gweithredu cartrefi plant heb eu cofrestru, ac yn dilyn hynny, gallant gychwyn erlyniad yn eu herbyn.

Fodd bynnag, nid oes gan Ofsted nac AGC unrhyw bwerau cyfreithiol i gymryd camau ar sail cydymffurfiaeth yn erbyn darparwr sy'n gweithredu cartref plant heb ei gofrestru sydd wedi'i leoli y tu allan i'w priod awdurdodaethau.

## Y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth

*Plant a gaiff eu lleoli yn Lloegr gan awdurdodau lleol yng Nghymru*

- Os daw AGC yn ymwybodol bod awdurdod lleol yng Nghymru wedi lleoli plentyn mewn cartref plant heb ei gofrestru yn Lloegr, bydd yn hysbysu Ofsted drwy gwblhau Adran A o 'Llythyr cartrefi plant heb eu cofrestru AGC/Ofsted' (SCCDRF1) a'i e-bostio i Unregistered.CH@ofsted.gov.uk.
- Wedyn, bydd Ofsted yn rhoi gwybod i AGC ei bod wedi adolygu'r wybodaeth a'i bod yn cymryd camau priodol drwy gwblhau Adran B o SCCDRF1 a'i e-bostio i AGC@llyw.cymru.
- Os bydd Ofsted yn cael gwybod bod awdurdod lleol yng Nghymru wedi lleoli plentyn mewn cartref plant heb ei gofrestru yn Lloegr, bydd Ofsted yn cwblhau Adran A ac Adran B (os bydd y wybodaeth yn hysbys ar y pryd) ac yn e-bostio AGC@llyw.cymru. Os bydd angen i Ofsted ddod o hyd i ragor o wybodaeth cyn cwblhau Adran B, bydd yn anfon yr adran hon ar wahân yn ddiweddarach.
- Bydd Ofsted hefyd yn e-bostio llythyr 'Welsh placing LA standard unregistered children's home update' i'r awdurdod lleol yng Nghymru dan sylw. Bydd yn anfon copi o'r neges e-bost hon i AGC@llyw.cymru.

*Plant a gaiff eu lleoli yng Nghymru gan awdurdodau lleol yn Lloegr*

- Os daw Ofsted yn ymwybodol bod awdurdod lleol yn Lloegr wedi lleoli plentyn mewn cartref plant heb ei gofrestru yng Nghymru, bydd yn hysbysu AGC drwy gwblhau Adran A o SCCDRF1 a'i e-bostio i AGC@llyw.cymru.
- Wedyn, bydd AGC yn rhoi gwybod i Ofsted ei bod wedi adolygu'r wybodaeth a'i bod yn cymryd camau priodol drwy gwblhau Adran B o SCCDRF1 a'i e-bostio i Unregistered.CH@ofsted.gov.uk.
- Wedyn bydd AGC yn anfon e-bost o unrhyw lythyrau canlyniadau panel i'r awdurdod lleol dan sylw yn Lloegr gan nodi'r camau a gymerwyd. Bydd yn anfon copi o'r neges e-bost hon i Unregistered.CH@ofsted.gov.uk.

*Hysbysu bod y lleoliad wedi dod i ben*

- Os caiff AGC neu Ofsted ei hysbysu bod lleoliad mewn cartref gofal heb ei gofrestru wedi dod i ben, yna bydd yr arolygiaeth berthnasol yn rhoi gwybod i'r llall gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost uchod.

*Hysbysu bod Ofsted wedi gofyn am wybodaeth gan awdurdod lleol yng Nghymru am ymchwiliad troseddol i ddarparwr*

- Os bydd Ofsted yn anfon e-bost i awdurdod lleol yng Nghymru fel rhan o ymchwiliad troseddol sy'n ymwneud â chartref plant heb ei gofrestru yn Lloegr, bydd yn anfon copi o'r neges e-bost i AGC@llyw.cymru.

## Llythyr cartrefi plant heb eu cofrestru AGC/Ofsted (SCCDRF1)

Defnyddiwch y templedi isod ar gyfer llythyrau Adran A a B, gan ychwanegu/dileu manylion y rheoleiddiwr perthnasol fel y bo angen. Defnyddiwch ddeunyddiau brandio'r sefydliad perthnasol ar gyfer llythyrau, gan gynnwys ei logo, y dyddiad a chyfeiriadau.

*Adran A*

Annwyl AGC/Ofsted

### Cartref plant heb ei gofrestru

Rydym yn cysylltu â chi gan ein bod yn credu bod awdurdod lleol yng Nghymru wedi lleoli plentyn mewn cartref gofal heb ei gofrestru yn Lloegr.

Mae'n drosedd, o dan adran 11 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, i weithredu neu reoli sefydliad sy'n darparu gofal a llety i blant os nad yw wedi'i gofrestru i wneud hynny. Ofsted yw'r prif reoleiddiwr sy'n ymdrin â chartrefi plant heb eu cofrestru yn Lloegr.

Neu

Rydym yn cysylltu â chi gan ein bod yn credu bod awdurdod lleol yn Lloegr wedi lleoli plentyn mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad yng Nghymru.

Mae adran 5 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi ei fod yn drosedd darparu gwasanaeth neu wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru heb fod wedi eich cofrestru i wneud hynny.

### Gwybodaeth hysbys

Mae AGC wedi derbyn y wybodaeth ganlynol, sy'n nodi y gall person(au) fod yn darparu gofal a llety i blentyn a gafodd ei leoli yn Lloegr gan awdurdod lleol yng Nghymru ac nad yw wedi'i gofrestru/nac ydynt wedi'u cofrestru ag Ofsted.

Neu

Mae Ofsted wedi derbyn y wybodaeth ganlynol, sy'n nodi y gall person(au) fod yn darparu gofal a llety i blentyn a gafodd ei leoli yng Nghymru gan awdurdod lleol yn Lloegr ac nad yw wedi'i gofrestru/nac ydynt wedi'u cofrestru ag AGC.

### Yr awdurdod lleoli

Enw'r awdurdod:

Manylion cyswllt ar gyfer pennaeth y gwasanaeth:

### Gwybodaeth am y darparwr

Enw'r darparwr:

Cyfeiriad y lleoliad:

Oedran y plentyn/plant:

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i Unregistered.CH@ofsted.gov.uk /AGC@llyw.cymru.

Yn gywir

AGC/Ofsted

*Adran B*

**Ymateb AGC/Ofsted**

Ar ôl adolygu'r wybodaeth a anfonwyd atom, gallwn gadarnhau'r canlynol [dewiswch o blith yr opsiynau canlynol a dilëwch y rhai nad ydynt yn berthnasol].

- Mae Ofsted/AGC o'r farn bod y darparwr yn gweithredu cartref plant heb ei gofrestru.
- Nid yw Ofsted/AGC o'r farn bod y darparwr yn gweithredu cartref plant heb ei gofrestru.
- Nid yw Ofsted/AGC yn cymryd unrhyw gamau pellach yn erbyn y darparwr.
- Mae Ofsted/AGC wedi anfon llythyr at y darparwr sy'n ei hysbysu bod yn rhaid iddo wneud cais i gofrestru ag AGC/Ofsted neu roi'r gorau i weithredu cartref gofal heb ei gofrestru.
- Mae Ofsted/AGC wedi dechrau ymchwiliad troseddol i'r darparwr am weithredu cartref plant heb ei gofrestru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i Unregistered.CH@ofsted.gov.uk/AGC@llyw.cymru.

Yn gywir

AGC/Ofsted

Mae’r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) yn rheoleiddio ac yn arolygu i gyflawni rhagoriaeth wrth ofalu am blant a phobl ifanc, ac ar gyfer addysg a sgiliau ar gyfer dysgwyr o bob oedran. Mae'n rheoleiddio ac yn arolygu gofal plant a gofal cymdeithasol plant, ac yn arolygu'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass), ysgolion, colegau, hyfforddiant cychwynnol i athrawon, sgiliau ac addysg bellach, dysgu oedolion a'r gymuned yn ogystal ag addysg a hyfforddiant mewn carchardai a sefydliadau diogel eraill. Mae'n asesu gwasanaethau plant cynghorau ac yn arolygu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, gwasanaethau diogelu a gwasanaethau amddiffyn plant.

Os hoffech dderbyn copi o'r ddogfen hon mewn fformat gwahanol, megis print mawr neu fersiwn Braille, ffoniwch 0300 123 1231, neu anfonwch e-bost i enquiries@ofsted.gov.uk.

Cewch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence, ysgrifennwch at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/organisations/ofsted.

Diddordeb yn ein gwaith? Gallwch danysgrifio i dderbyn ein cylchlythyr misol i gael rhagor o wybodaeth a diweddariadau: http://eepurl.com/iTrDn.

Piccadilly Gate
Store Street
Manchester
M1 2WD

Ffôn: 0300 123 1231
Ffôn testun: 0161 618 8524
E-bost: enquiries@ofsted.gov.uk
Gwefan: www.gov.uk/ofsted

© Hawlfraint y Goron 2023